George Herbert farw cyhoeddwyd *The Temple* . . ., sef casgliad o farddoniaeth wedi ei drefnu o gwmpas cylch gwyliau'r flwyddyn eglwysig. Cyhoeddwyd ei waith sylweddol arall *A Priest to the Temple, or The Country Parson* . . . yn *Herbert's Remains* . . . a gyhoeddwyd yn 1652.

Y prif, os nad yr unig, ffynhonell ar gyfer hanes bywyd George Herbert yw'r gyfrol *The Life of Mr George Herbert* gan Izaak Walton a gyhoeddwyd yn 1670 a'r nodiadau o waith Barnabas Oley a gyhoeddwyd yn 1652. Gweithiau gan rai oedd yn ei edmygu'n fawr oedd y rhain ac oherwydd hynny yr tueddu i fod yn or-ganmoliaethus. Eto i gyd mae pob tystiolaeth arall hefyd yn tystio ei fod yn ddyn caredig iawn ac yn rheithor godidog. Sant o ddyn mewn gair. Er yn eiddil o gorff yr oedd yn hollol gadarn ei argyhoeddiad ac yn cael ei adnabod fel dyn â'i gariad tuag at Iesu Grist yn tasgu o bob modfedd o'i gorff. Yr oedd hefyd yn ysgolhaig o radd uchel ac yn fardd o bwys. Y mae ei farddoniaeth yn dystiolaeth bellach o'i ffydd yn Nuw ac o'i raslondeb. Wrth gyflwyno ei lawysgrifau i'w gyfaill Nicholas Ferrar ychydig cyn iddo farw y neges a drosglwyddwyd i Ferrar gyda'r llawysgrifau oedd: *'Os bydd y rhain o unrhyw fudd i endaid tlawd gwrthodedig — i'w cyhoeddi, os na fyddant — i'w llosgi'*. Lle i ddiolch sydd gennym ni heddiw fod Nicholas Ferrar wedi gweld gwerth ynddynt. Ymhen ychydig flynyddoedd wedi i George Herbert farw yr oedd gwerthu anhygoel ar ei weithiau. Gwelwyd naw argraffiad o *The Temple* . . . mewn cyfnod byr ac amcangyfrifa Walton fod dros 20,000 o gopïau o'r gwaith wedi eu gwerthu dros gyfnod o ddeugain mlynedd rhwng 1633-1673 a hynny mewn oes pan oedd llyfrau'n ddrud a pryd y gwerthwyd dim ond 3,000 o gopïau o *Paradise Lost* gan Milton.

Y mae gwaith George Herbert wedi dylanwadu'n drwm ar lawer ym mhob oes. Y geiriau a lefarwyd gan Henry Vaughan y bardd-feddyg o Aberhonddu oedd, *'Gyda'i fywyd a'i gerddi sanctaidd enillodd lawer o ddychweledigion, fi fy hun yn bennaf'*. Dros y blynyddoedd datblygodd nifer o'i gerddi yn emynau poblogaidd ac adnabyddus. Dywedir bod John a Charles Wesley, er enghraifft, wedi addasu dros ddeugain o'i gerddi ar gyfer yr *Hymns and Sacred Poems* a gyhoeddwyd yn 1739. Erbyn heddiw mae'n debyg mai *'Let all the world in every corner sing, Teach me my God and King, The Lord my pasture shall prepare* a'r enwocaf oll, *King of glory, King of Peace* (sydd yn mynd mor dda ar y dôn 'Gwalchmai') yw'r enghreifftiau o waith George Herbert sydd yn dal i fod yn boblogaidd. Yn y cyfnod diweddar y mae Glyndwr Williams wedi trosi *King of Glory, King of Peace* i'r Gymraeg ac ers rhai blynyddoedd bellach mae nifer o enwadau wedi bod yn defnyddio cyfieithiad W. D. Williams o *Let all the world in every corner sing,* sef:

O! caned pawb o bedwar ban y byd,
'Fy Nuw a'm Rhi!'
Rhy uchel nid yw'r nef
I eilio'i foliant ef:
Rhy isel nid yw'r llawr
I chwyddo'r moliant mawr;
O! caned pawb o bedwar ban y byd,
'Fy Nuw a'm Rhi!'

Ar derfyn hyn o sylwadau mae'n ddiddorol nodi fod George Herbert wedi bod ac yn parhau i fod o ddiddordeb mawr i ysgolheigion. Tasg rwydd fyddai llunio rhestr o dros 20 o draethodau MA a thua 60 o draethodau PhD sydd yn seiliedig ar agweddau o'i fywyd a'i waith.

(O.N.: Mae'r llun o George Herbert a gyhoeddir gyda'r erthygl hon yn seiliedig ar lun mewn pensil ar felwm o waith Robert White sy'n dyddio o tua 1670. Dywedir fod y llun o eiddo White yn ei dro yn seiliedig ar bortread gwreiddiol o waith Van Dyck.

# YN EISIAU

***Byr Hanes am Blwyf Nantcwnlle;*** gan E. Edwardes. Aberystwyth, Cambrian News, 1930.
**Mrs Lloyd Williams, Parc Newydd, Llanon, Aberystwyth, Dyfed SY23 5LD. Ffôn: Llanon 272672.**

* * * *

***A History of Wales from the earliest times to the Edwardian Conquest;*** by John Edward Lloyd. Unrhyw argraffiad o'r gwaith cyn belled a bod y ddwy gyfrol yn perthyn i'r un argraffiad.
***Owen Glendower, Owen Glyn Dŵr;*** J. E. Lloyd. Oxford, Clarendon Press, 1931.
**Mr P. Attwater, 121 Shirley Drive, Hove, Sussex BN3 6UJ. Ffôn: (0273) 505863.**

* * * *

***Llyfr o Idiomau Cymraeg;*** R. E. Jones. Gwasg John Penry, 1975.
**J. Wynne Lewis, Cae'r Wylan, Ystad Nant Bychan, Moelfre, Ynys Môn, Gwynedd LL72 8HE.**

* * * *

***Homes of Wales;*** by Owen M. Edwards, translated by T. Eurfyl Jones. Wrexham, Hughes & Son, 1931.
**Miss Beti Rhys, 5 South Marine Terrace, Aberystwyth, Dyfed SY23 1JX. Ffôn: Aberystwyth 611793.**

* * * *

***Setiau neu rifynnau unigol o Y Faner am y cyfnod 1938-1942.*** Byddai papurau newydd eraill o'r un cyfnod o ddiddordeb hefyd.
Cysylltwch ag **Iwan Meical Jones** ar **(0970) 820300** gyda'r nos.

* * * *

***Hen Gardiau Post o'r cyfnod cyn 1940.***
**J. B. Cowell, 52 Lôn y Bryn, Porthaethwy, Gwynedd LL59 5LL. Ffôn: Porthaethwy 712306.**

* * * *

***Language and History in Early Britain;*** K. H. Jackson. Edinburgh, 1953.'
**Robin Llywelyn. Ffôn (0766) 770294 (adref); neu (0766) 770228 (oriau gwaith).**

* * * *

***L'Oeuvre Poétique de Gutun Owain;*** E. Bachellery. Paris, 1950-51.
***Recherches Sur La Poésie de Dafydd ap Gwilym;*** Th. M. Chotzen. Amsterdam, 1927.
***A History of Wales;*** J. E. Lloyd. London, 1911.
***Peniarth 57;*** E. Stanton Roberts, 1921.
***Peniarth 67;*** E. Stanton Roberts, 1918.
***Llanstephan 6;*** E. Stanton Roberts, 1916.
***Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol;*** John Rowlands (Gol.). Caerdydd, 1975.
***Llywarch Hen a'i Feibion;*** Eurys Rowlands. Aberystwyth, 1984.
***Language and History in Early Britain;*** K. H. Jackson. Edingurgh, 1953.
***Studies in Early Celtic Nature Poetry;*** K. H. Jackson. Cambridge, 1974 a 1977.
***Hanes Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1650;*** R. I. Prys (Gweirydd ap Rhys). Cynnyrch Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, 1883.
***Gwaith y Parchedig Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir);*** D. Silvan Evans (Gol.). Caernarfon, 1876.
***The Correspondence of Thomas Percy and Evan Evans;*** Louisiana State University Press, 1957.
***Edmwnd Prys;*** T. R. Roberts (Araph), 1899.
**Jason Walford Davies, Tiwtor, Neuadd Reichel, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd.**

* * * *

***Dinasyddiaeth bur ac areithiau eraill;*** gan Henry Jones. Caernarfon, Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru, 1911.
**Dr Emyr Wyn Jones, Carreg Lefain Bach, Rhiw, Pwllheli, Gwynedd LL53 8AG.**


# HYSBYSIAD ARBENNIG

Mae Pwyllgor Sir Gaernarfon o Gronfa Goffa Saunders Lewis yn bwriadu cyhoeddi adargraffiadau cain o ddwy o ddramâu Saunders Lewis.

150 copi o bob un fydd yn cael eu hargraffu.

Y ddwy ddrama yw:
**GWAED YR UCHELWYR**
a
**THE EVE OF ST. JOHN**

Bydd y ddwy chwaer-gyfrol wedi eu rhwymo mewn lledr llawn.

Pris y cyfrolau fydd **£25 yr un** neu **£45 am bâr.**

I archebu copïau cysylltwch ag
EIRUG WYN,
GORWELION,
Y GROESLON,
CAERNARFON, GWYNEDD LL54 7SU
gan amgau'r tâl priodol gan gofio ychwanegu £2 tuag at gludiant un gyfrol neu £3 os archebir dwy.

Rhagwelir y bydd y cyfrolau'n gwerthu'n gyflym, felly y cyntaf i'r felin . . .